



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Canllawiau ar Ailddechrau Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith Wyneb yn Wyneb

Fersiwn 1.0: Mehefin - Awst 2020



**DIOGELU CYMRU**  
KEEP WALES SAFE



UNDEB EVROPEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Cronfa Gymdeithasol Ewrop**  
European Social Fund

# Cynnwys


|   |    |
|---|----|
| <b>Cyflwyniad</b>   | 3  |
| <b>Cefndir</b>  | 4  |
| <b>Cyd-destun: Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith</b>                            | 5  |
| <b>Grwpiau Dysgwyr â Blaenoriaeth: Cam “Achub”</b>                                      | 6  |
| <b>Cynllunio ar gyfer ailddechrau dysgu wyneb yn wyneb</b>                              | 8  |
| <b>Diogelu unigolion agored i niwed</b>   | 11 |
| <b>Gweithredu amgylcheddau dysgu yn ddiogel</b>   | 13 |
| <b>Cynnal dilyniant dysgu i bob dysgwr</b>  | 15 |
| <b>Monitro ac adolygu</b>   | 17 |
| <b>Atodiad A:<br/>Canllawiau gweithredol ar gyfer darparwyr hyfforddiant annibynnol</b> | 18 |

## Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau polisi i sefydliadau addysg bellach (SAB) a darparwyr dysgu seiliedig ar waith annibynnol yng Nghymru ar reoli trefniadau dychwelyd dysgwyr a staff yn ddiogel i ddysgu wyneb yn wyneb.
2. Bwriedir i sefydliadau AB a darparwyr dysgu seiliedig ar waith ddefnyddio'r canllawiau hyn yn y cam cyntaf yn ystod ail hanner tymor haf 2020. Byddant yn cael eu diwygio a'u mireinio ar gyfer camau darparu dysgu y dyfodol o hydref 2020 ymlaen, mewn ymgynghoriad â'r sectorau.
3. Mae'r canllawiau'n cael eu cefnogi gan
  - Ganllawiau gweithredol ar gyfer darparwyr dysgu seiliedig ar waith, sydd wedi'u hatodi yn Atodiad A; a'r
  - **Protocol gweithredol** i gefnogi trefniadau dychwelyd staff i golegau AB yng Nghymru, a ddatblygwyd gan y sector AB mewn ymgynghoriad â'r holl undebau athrawon cydnabyddedig fel rhan o Bwyllgor Addysg Bellach Cenedlaethol Cymru.
4. Mae'n rhaid i SAB a darparwyr dysgu seiliedig ar waith sicrhau bod dysgu wyneb yn wyneb yn cydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 a'u bod yn dilyn y canllawiau a roddwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Rheoliadau hynny. Mae dolen i'r Rheoliadau a'r canllawiau yn adran adnoddau y canllawiau hyn.

## Cefndir

- Datblygwyd y canllawiau hyn yng nghyd-destun y [fframwaith penderfyniadau ar gyfer y cam nesaf i addysg a gofal plant](#) fel y cyhoeddwyd ar 15 Mai fel dogfen waith i gynghori ar ddulliau o newid gweithrediad darparwyr addysg dros amser mewn ymateb i COVID-19.
- Ar 20 Mai cyhoeddwyd ein [Cynllun Cadernid ar gyfer Covid-19](#) ar gyfer y sector ôl-16, yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'i rhanddeiliaid i ddiwallu anghenion newidiol dysgwyr, cymunedau a chyflogwyr yng Nghymru yn ystod ac wedi pandemig Covid-19. Mae'n amlinellu tri cham gwaith:



- Mae'r canllawiau hyn yn rhan o'r cam "Achub" tymor byr, ac yn canolbwyntio ar ddarparu ar gyfer dysgwyr cyfredol sydd angen cwblhau cymwysterau galwedigaethol, a'r rhai sydd angen cymorth i barhau i ddysgu. Bydd canllawiau pellach yn cael eu datblygu ar gyfer y cam "Adnewyddu".

## Cyd-destun: Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith

8. Wrth ddatblygu'r canllawiau hyn, rydym wedi gweithio gyda'r sectorau AB a Darparwyr Hyfforddiant Annibynnol i ddeall eu gweithrediadau, blaenoriaethau a ffactorau cyfredol a fydd yn dylanwadu ar natur y trefniadau ailagor ac i ba raddau y gellir gwneud hynny. Mae'r trafodaethau hyn wedi bod yn sail i benderfyniadau ar grwpiau o ddysgwyr a ddylai gael blaenoriaeth wrth ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb, pan y gellir rheoli hyn yn ddiogel, o fewn [cyngor presennol ar gadw pellter cymdeithasol](#), ac yn unol â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020. Yn achos Corfforaethau AB a sefydliadau dynodedig, mae'r canllawiau hyn a phrotocolau cysylltiedig yn berthnasol i'w gweithrediadau a ariennir gan arian cyhoeddus yng Nghymru. Dylai sefydliadau AB a darparwyr hyfforddiant annibynnol ddilyn yr holl ofynion priodol sydd ar waith mewn perthynas ag unrhyw weithrediadau eraill.
9. Cyfrifoldeb y darparwyr dysgu unigol yw cynnal asesiadau risg [addas a digonol](#) a chyflwyno mesurau i sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 a diogelwch eu dysgwyr a'u staff. Bwriad y canllawiau hyn yw darparu fframwaith cyffredinol i gefnogi darparwyr i wneud hyn ac i sicrhau eu bod yn cynllunio'n briodol cyn ailagor.
10. Mae'n bwysig nodi, er ein bod ni'n ceisio sicrhau cymaint o gysondeb â phosibl fel bo dysgwyr mewn lleoliadau gwahanol yn cael yr un cyfleoedd i barhau a datblygu eu dysgu, nid ydym yn disgwyl cael un model a fydd yn addas i bawb gan bob darparwr. Y rheswm am hyn yw bod amgylcheddau dysgu, modelau darparu, cymysgedd cwricwlwm a chapasiti darparwyr yn amrywio'n fawr. Rydym yn cydnabod hefyd na fydd rhai aelodau staff a dysgwyr unigol yn gallu dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb yn y cam hwn am wahanol resymau, hyd yn oed dysgwyr sy'n rhan o grŵp blaenoriaeth a nodwyd. Bwriad y canllawiau hyn felly yw rhoi hyblygrwydd i ddarparwyr o ran sut maent yn cynllunio ar gyfer ailagor a chefnogi eu dysgwyr.

<sup>1</sup>Er symrlwydd, rydym wedi defnyddio'r gair "ailagor" yn y ddogfen hon i ddynodi "ailagor ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb i rai grwpiau o ddysgwyr", gan gydnabod bod darparwyr wedi parhau i ddarparu dysgu ar-lein ers i'r broses cyfyngiadau symud ddechrau ar 20 Mawrth 2020, a byddant parhau i wneud hynny ar gyfer y mwyafrif y dysgwyr.

## Grwpiau Dysgwyr â Blaenoriaeth: Cam “Achub”

Rydym wedi gweithio gyda'r sector i nodi dau grŵp o ddysgwyr y dylid eu cynnwys yng nghanm cyntaf ailagor, naill ai oherwydd bod eu rhaglenni dysgu'n cynnwys cymwysterau na ellir eu cwblhau ar-lein, neu oherwydd eu bod mewn perygl sylweddol o ddiethrio rhag dysgu. Y grwpiau hyn yw:

### Blaenoriaeth Gyntaf

11. Y dysgwyr hynny a oedd i fod i gwblhau cymwysterau galwedigaethol ym mlwyddyn academaidd 2019/20, ac sydd angen cwblhau dysgu ac asesiadau ymarferol i wneud hynny. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr AB sy'n astudio cymwysterau sy'n dyfarnu cymhwysedd galwedigaethol, a phrentisiaethau (lle mae mynediad i safleoedd cyflogwyr yn caniatáu hynny).
12. Bydd y dysgwyr hyn yn ailddechrau dysgu wyneb yn wyneb gyda'r prif bwrpas o gwblhau dysgu a/neu asesiadau ymarferol. Bydd hyn yn galluogi'r dysgwyr i gwblhau eu cymwysterau a symud ymlaen i gam nesaf dysgu a/neu gyflogaeth, gan helpu i leddfu'r pwysau ar y rhwydwaith darparwyr yn 2020/21. Rydym felly'n disgwyl y bydd y dysgwyr hyn yn derbyn cyfarwyddyd ac yn cwblhau asesiadau, lle mae'n bosibl gwneud hynny gan gydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 a gofynion cadw pellter cymdeithasol.

### Yr Ail Flaenoriaeth

14. Dysgwyr mewn AB a dysgu seiliedig ar waith sydd, ym marn eu darparwr, angen cymorth ychwanegol penodol er mwyn parhau i ddatblygu ym myd dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys:
  - **(i) Dysgwyr agored i niwed yn cynnwys y rhai ag anghenion diogelu ac sy'n cael eu cefnogi gan ofal cymdeithasol, sy'n cynnwys:**

- plant a phobl ifanc<sup>2</sup> sy'n derbyn gofal a chymorth neu sydd â chynlluniau cymorth;
- plant a phobl ifanc ar y gofrestr amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal;
- gofalwyr ifanc;
- plant a phobl ifanc anabl; a'r,
- rhai sydd wedi cael Datganiadau o anghenion addysgol arbennig yn ystod addysg orfodol.

**(ii) Dysgwyr sydd wedi cael anhawster i ddysgu ar-lein oherwydd cyfarpar amhriodol, trafferth cysylltu neu ddiffyg siliau digidol.**

**(iii) Dysgwyr y mae'r darparwr yn ystyried sydd mewn perygl o ddieithrio neu o adael dysgu.**

15. Rydym yn cydnabod na fydd hi'n bosibl i lawer o'r dysgwyr hyn ailddechrau rhaglen ddysgu "normal" efallai. Nid ydym yn mabwysiadu dull cyfarwyddol, ond yn rhoi hyblygrwydd i ddarparwyr benderfynu sut beth fydd ymgysylltu mewn dysgu wyneb yn wyneb. Prif bwrpas dod â'r dysgwyr hyn yn ôl i'r coleg neu'r ganolfan hyfforddi yw gwirio a chefnogi eu cynnydd, gan roi fframwaith iddynt i sicrhau bod eu diddordeb a'u cymhelliant yn parhau. Dylai darparwyr ddefnyddio eu barn broffesiynol i benderfynu ar y cyfuniad gorau o ddulliau, a defnyddio eu hasesiadau risg i benderfynu a ddylai dysgwyr ddychwelyd i'r coleg neu'r ganolfan hyfforddi yn y cam hwn.

16. Yn dibynnu ar anghenion y dysgwr a chapasiti'r darparwr, gallai modelau gynnwys:

- Cymorth bugeiliol, sesiynau gwirio iechyd meddwl a llesiant;
- Cymorth tiwtorial i wirio sut mae'r dysgwr yn ymdopi â darpariaeth ar-lein/o bell a'i fod yn deall beth sy'n ddisgwyliedig ganddo, ac i roi adborth ar ei waith;
- Cymorth TGCh i sicrhau bod y dysgwyr yn gyffyrddus a hyderus i ddefnyddio platfformau dysgu ar-lein a thechnolegau eraill sy'n ofynnol ar gyfer dysgu o bell;

<sup>2</sup>At ddibenion y canllawiau hyn, mae plant a phobl ifanc yn cyfeirio at bawb 0-25 oed yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).



- Gwiriadau diogelu;
  - Cyngor ac arweiniad ar gamau nesaf dysgu a/neu gyflogaeth; a
  - Lle bo'n ymarferol, darparu'r dysgu mewn grwpiau bach neu trwy drefniant un-i-un.
17. Nid oes isafswm o ran disgwyliad i fynychu ar gyfer y dysgwyr hyn; gallant fynychu eu coleg neu ganolfan unwaith, neu'n rheolaidd dros sawl wythnos. Dylai sesiynau tiwtorial neu gymorth eraill ddigwydd drwy apwyntiad fel y gall darparwyr reoli niferoedd a llif y mynychwyr. Dylid rhoi cyfle i ddysgwyr ddod i'w coleg neu ganolfan hyfforddi lle bo hyn yn ymarferol, ond efallai y byddant yn dewis peidio â gwneud hynny. Os ydynt yn dewis peidio dylid rhoi sicrwydd iddynt y byddant yn cael eu cefnogi i barhau i ddysgu o bell.

## Cynllunio ar gyfer ailddechrau dysgu wyneb yn wyneb

18. Mae'n rhaid i bob darparwr dysgu unigol sicrhau bod ganddo ei gynlluniau ei hun fel ei fod yn gwbl barod ac yn gallu mynegi sut beth fydd dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb yn ddiogel mewn modd sy'n cydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020.
19. Wrth wneud penderfyniadau ar hyn a chymau pellach ailagor, dylai darparwyr ystyried y pwyntiau canlynol:
- **Pwy** yw'r dysgwyr (eu nodweddion a'u hanghenion dysgu)?
  - **Pam** mae angen i ddysgwyr ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb?
  - **Ble** yn y coleg neu'r ganolfan hyfforddi y mae angen i'r dysgwr fod gydol y dydd?
  - **Beth** sydd angen i'r dysgwr ei wneud i sicrhau cynnydd wrth ddysgu?
  - **Pryd** mae angen i'r dysgwr ddychwelyd i'r coleg neu'r ganolfan?



## 20. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr:

- Gynnal a chyhoeddi asesiad risg llawn a gweithredu trefniadau i reoli risgiau iechyd a diogelwch;

Efallai y bydd campysau, canolfannau ac ardaloedd arbenigol unigol angen eu hasesiadau risg eu hunain, neu ddiweddariad sy'n canolbwyntio ar Covid-19 i'w hasesiadau risg cyfredol.

Rydym yn argymhell bod asesiadau risg yn cael eu cyhoeddi ar wefan y darparwr, mewnwyd staff neu yriant a rennir.

Am ganllawiau ar gynnal asesiadau risg, gweler gwefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: <https://www.hse.gov.uk/news/working-safely-during-coronavirus-outbreak.htm>

Mae darparwyr dysgu yn destun [Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1999](#).

- Ymgynghori â staff, undebau a rhanddeiliaid;
- Datblygu cynlluniau cyfathrebu ar gyfer staff, dysgwyr, rhieni/gofalwyr a chyflogwyr, yn cynnwys ffyrdd clir iddynt ofyn cwestiynau a mynegi pryderon;
- Yn achos dysgu mewn canolfan, ystyried sut mae'r amgylcheddau dysgu a'r ardaloedd cymunedol yn cael eu paratoi i fodloni [gofynion cadw pellter cymdeithasol](#), sydd ar hyn o bryd yn ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliadau gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau bod unigolion nad ydynt o'r un cartref yn cadw dau fetr (tri cham) ar wahân;
- Yn achos prentisiaid, cynnal adolygiad iechyd a diogelwch o safle cyflogwr i asesu a yw'n ddiogel i aseswyr gynnal ymweliadau;
- Asesu pa staff a dysgwyr a fydd yn gallu ailddechrau dysgu wyneb yn wyneb yn y cam hwn, yn cynnwys nodi a chyfathrebu â'r rhai na all fynychu yn sgil gofynion gwarchod, a'r rhai sydd â phryderon neu'n gorbryderu am fynychu;
- Cyfathrebu ymddygiad disgwylidig yn glir i ddysgwyr yn cynnwys gofynion cadw pellter cymdeithasol ([mae canllawiau Llywodraeth y DU i bobl ifanc ar gadw pellter](#) yn adnodd defnyddiol); gofynion hylendid fel golchi dwylo'n rheolaidd a thrylwyr; beth i'w wneud os ydynt yn teimlo'n sâl; beth i'w wneud os oes ganddynt bryderon neu orbryder; a beth fyddai'n digwydd pe na fyddent yn cydymffurfio â gofynion;

- Yn achos dysgwyr cyflogedig yn cynnwys prentisiaid, cadarnhau gyda chyflogwyr pa drefniadau hylendid a chadw pellter cymdeithasol priodol sydd ar waith a'u bod yn cyd-fynd â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020;
- Ystyried sut y dylai gofynion cadw pellter cymdeithasol a hylendid gael eu hadlewyrchu mewn polisiau disgyblu a bod angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol o unrhyw ganlyniadau diffyg cydymffurfio â gofynion cadw pellter cymdeithasol;
- Ystyried teithio i ac o ganolfannau dysgu, gan gyfeirio at [ganllawiau teithio](#) Llywodraeth Cymru;
- Penderfynu ar ofynion glanhau a diheintio cyn ac ar ôl ailagor, gan gyfeirio at [ganllawiau Llywodraeth y DU ar ddihalogi mewn lleoliadau nad ydynt yn rhai gofal iechyd](#);
- Ystyried a oes angen gwneud unrhyw drefniadau arbennig i ddarparu cyfarpar diogelu personol (PPE) i ddysgwyr/neu staff, gan sicrhau cysondeb â [chanllawiau](#) Llywodraeth y DU ar atal a rheoli haint a [canllawiau Llywodraeth Cymru ar gorchuddion wyneb](#);
- Ystyried yr amserlen, yn cynnwys oriau agor a seibiannau wedi'u gwasgaru;
- Parhau gyda dysgu ar-lein i'r rhai sy'n methu â mynychu'n gorfforol yn y cam hwn, a dysgu cymysg ar gyfer y rhai sy'n mynychu eu coleg neu ganolfan hyfforddi am ran o'r amser; a
- Sicrhau trefniadau eraill ar gyfer asesu a datblygiad y rhai sy'n methu â mynychu'n gorfforol.

Gweler **Atodiad A** am ganllawiau gweithredol ar gyfer Darparwyr Hyfforddiant Annibynnol

Gweler **protocol Colegau Cymru am ganllawiau gweithredol ar gyfer sefydliadau AB**

## Diogelu unigolion agored i niwed

21. Wrth gynllunio i ailddechrau unrhyw agwedd ar ddysgu wyneb yn wyneb, mae'n rhaid i ddarparwyr flaenoriaethu diogelwch a llesiant eu dysgwyr a'u staff yn fwy nag unrhyw ystyriaethau eraill. Mae'n rhaid i'w cynlluniau, negeseuon cyfathrebu a darpariaeth a threfniadau darparu adlewyrchu canllawiau'r llywodraeth ar ddiogelu pobl "eithriadol o agored i niwed yn glinigol" (neu "unigolyn a warchodir") ac unigolion "agored i niwed", fel yr amlinellir isod. Mae'r [canllawiau ar warchod](#) yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd a bydd y canllawiau hyn yn cael eu diweddarau os yw cyngor yn newid.

### Unigolion "eithriadol o agored i niwed"

Mae gan unigolion [eithriadol o agored i niwed](#) un o restr benodol o gyflyrau iechyd difrifol hirdymor oedd yn bodoli eisoes, sy'n golygu bod eu systemau imiwedd wedi'u cyfaddawdu ac felly eu bod mewn perygl sylweddol o salwch difrifol pe baent yn dod i gysylltiad â Covid-19. Bydd yr unigolion hyn wedi derbyn [llythyr gwarchod](#) gan Brif Swyddog Meddygol Cymru. Ni ddylid gofyn i staff a dysgwyr o'r categori hwn fynychu coleg, gwaith neu leoliadau dysgu eraill. Gallant barhau i weithio neu ddysgu gartref, lle mae hyn yn ymarferol.

Nid oes gofyn i staff a dysgwyr sy'n byw gyda rhywun agored iawn i niwed ddilyn mesurau gwarchod amddiffynnol os nad oes ganddynt hwy gyflwr iechyd isorweddol, ond fe'u cynghorir i ddilyn canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol gartref a dilyn arferion hylendid da yn drylwyr. Gall amgylchiadau unigol amrywio yn dibynnu ar resymau aelodau cartrefi dros warchod (er enghraifft, efallai na fydd rhieni plant anabl yn gallu cadw pellter gartref oherwydd anghenion gofal personol y plentyn). Lle bo gofyn, dylid cyflwyno trefniadau i barhau i weithio a dysgu gartref i'r unigolion hyn lle bo'n bosibl.. Os nad yw hyn yn bosibl, mae'n rhaid cymryd gofal ychwanegol i sicrhau eu bod nhw, a'r rhai o'u hamgylch, yn cadw at ganllawiau cadw pellter cymdeithasol.

Os nad ydych yn siŵr a yw eu cyflwr iechyd yn golygu y dylent fod yn amddiffyn eu hunain, dylai staff a dysgwyr gael cyngor gan eu meddyg teulu neu feddyg yr ysbyty.

## Unigolion “mewn perygl”

Mae [oedolion mewn perygl](#) mewn mwy o berygl na'r cyffredin o Covid-19. Mae'r categori hwn yn cynnwys pobl dros 70 oed, y rhai sy'n feichiog a'r rhai sydd ag amrywiaeth o gyflyrau iechyd cronig. Nid ydynt wedi cael cyfarwyddyd i warchod, ond dylent ddilyn canllawiau cadw pellter cymdeithasol llym, a chael cyn lleied o gysylltiad â phosibl â phobl y tu allan i'w cartref. Cynghorir menywod beichiog i weithio gartref ar ôl 28 wythnos o fod yn feichiog.

Lle bo'n bosibl, dylid gwneud darpariaethau i staff a dysgwyr yn y categori agored i niwed barhau i weithio neu ddysgu gartref, gan addasu cyfrifoldebau staff i alluogi hyn. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid cymryd gofal ychwanegol i sicrhau bod unigolion agored i niwed, a'r rhai o'u hamgylch, yn cadw at ganllawiau cadw pellter cymdeithasol.

22. Mae'n rhaid rhoi cyfarwyddyd i staff a dysgwyr sydd wedi cael unrhyw symptomau Covid-19 yn y 14 diwrnod diwethaf, neu sy'n byw mewn cartref â rhywun sydd wedi cael diagnosis o Covid-19, i beidio â mynychu eu coleg neu ganolfan hyfforddi, a dylid gofyn iddynt gael prawf am Covid-19.
23. Mae rhai pobl yn teimlo'n orbryderus iawn am y posibilrwydd o ddal Covid-19 er nad ydynt yn y categori agored i niwed yn glinigol. Yn y cam hwn, ni ddylid rhoi pwysau ar staff a dysgwyr sy'n amharod i ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb gan nad ydynt yn teimlo'n ddiogel, waeth pa fesurau diogelwch a gyflwynir gan eu darparwr dysgu. Pan fydd y canllawiau hyn yn cael eu hailadrodd yn y dyfodol byddwn yn adolygu a mireinio'r gofynion ar gyfer dysgwyr sy'n bryderus am ddychwelyd. Cyfrifoldeb y darparwr dysgu unigol fydd mynd i'r afael ag unrhyw broblemau ynghylch staff yn dychwelyd, yn unol â'u telerau ac amodau cyflogaeth.

## Gweithredu amgylcheddau dysgu yn ddiogel

24. Mae rhai agweddau ar y canllawiau hyn yn ymwneud yn benodol â dysgu sy'n digwydd ar gampysau colegau, neu mewn canolfannau dysgu eraill (yn cynnwys elfennau "i ffwrdd o'r swydd" rhaglenni prentisiaeth, a rhaglenni cyflogadwyedd sy'n cael eu darparu mewn canolfannau). Yn yr achosion hyn, mae gan ddarparwyr dysgu reolaeth dros yr amgylchedd dysgu ac maent yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn ddiogel i ddysgwyr a staff. Yn achos dysgwyr, yn cynnwys prentisiaid, sy'n dysgu yn y gweithle, y cyflogwr sy'n gyfrifol am ddiogelwch yr amgylchedd dysgu; ond mae'n rhaid i'r darparwr dysgu fodloni ei hun ynghylch diogelwch ei staff sy'n darparu'r dysgu yn y gweithle.

25. Ym mhob achos, os yw natur yr amgylchedd dysgu'n golygu nad yw'r darparwr yn credu na all reoli risgiau'n effeithiol fel bod dysgwyr a staff yn gallu dychwelyd, **ni ddylid ailddechrau dysgu ar y pwynt hwn**. Mae hyn yn cynnwys achosion lle mae cynllun a maint canolfan yn golygu na ellir cadw pellter cymdeithasol, neu lle na all darparwr anfon aseswyr i weithleoedd yn rhesymol.

26. Dylai darparwyr dysgu:

- Sicrhau eu bod yn cymryd y camau lliniaru a nodwyd yn eu hasesiadau risg, a'u bod yn parhau i gadw asesiadau risg yn gyfredol;
- Cydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 a thalu sylw i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gymryd mesurau rhesymol i gynnal pellter cymdeithasol;
- Cadw at [ganllawiau](#) Llywodraeth y DU ar lanhau lleoliadau nad ydynt yn rhai gofal iechyd; a
- Sicrhau bod yna drefniadau ar gyfer dysgwyr a staff i adrodd am unrhyw bryderon os nad yw eraill yn dilyn gofynion hylendid neu gadw pellter cymdeithasol.

Gweler **Atodiad A** am ganllawiau gweithredol ar gyfer Darparwyr Hyfforddiant Annibynnol

Gweler **protocol Colegau Cymru am ganllawiau gweithredol ar gyfer sefydliadau AB**

## Strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu

27. Mae **Strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu** Llywodraeth Cymru'n nodi trefniadau i wella goruchwyliaeth iechyd cyhoeddus, er mwyn atal haint ac olrhain Covid-19 wrth i gyfyngiadau gael eu llacio. Prif elfennau'r strategaeth yw:

### PROFI

Mae **polisi profi gweithwyr hanfodol** Llywodraeth Cymru am Covid-19 yn nodi dull seiliedig ar anghenion o brofi gweithwyr hanfodol symptomatig, ac aelodau symptomatig o'u cartref.

Mae'r diffiniad o weithwyr hanfodol mewn lleoliadau addysg a gofal plant yn cynnwys yr holl staff sy'n gweithio mewn sefydliadau AB a darparwyr dysgu seiliedig ar waith.

Mae'r polisi'n nodi gwybodaeth am sut y gall gweithwyr hanfodol gael gafael ar ddarpariaeth profi leol.

### OLRHAIN

Dechreuwyd treialu system olrhain cysylltiadau ddechrau mis Mehefin a bydd yn cael ei chynyddu'n gyflym. Rhagwelir y bydd angen parhau i olrhain cysylltiadau ar lefel sylweddol am y flwyddyn nesaf, neu nes y ceir brechlyn.

Mae olrhain cysylltiadau'n cael ei ddarparu'n rhanbarthol drwy fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu diweddarw wrth i'r broses esblygu.

Mae Llywodraeth Cymru a GIG Cymru wedi cymeradwyo Ap Astudiaeth Symptomau Covid-19, y gall unigolion ei ddefnyddio i adrodd am eu hiechyd a chefnogi ymchwil i Covid-19. Gall darparwyr dysgu helpu i annog eu dysgwyr a'u staff i lawrlwytho'r ap o <https://covid.joinzoe.com/>.

### DIOGELU

Os oes unrhyw ddysgwr neu aelod o staff mewn lleoliad addysg yn mynd yn sâl gyda thymheredd uchel, peswch parhaus newydd, neu eu bod wedi colli eu synnwyr arogli neu flasau, mae'n rhaid eu hanfon gartref a dylid eu cynghori i hunanynysu am saith niwrnod. Dylai aelodau eu cartref hunanynysu am 14 diwrnod. Mae'r **canllawiau diweddaraf ar gyfer cartrefi lle mae gan rywun symptomau** ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae olrhain cysylltiadau'n golygu y gellir gofyn i bobl hunanynysu fwy nag unwaith. Dylai darparwyr dysgu ddilyn eu gweithdrefnau eu hunain ar gyfer cofnodi hunanynysu neu absenoldeb salwch yn sgil Covid-19. Nid oes gofyniad i adrodd yn ganolog ar hyn o bryd.

Gweler **Atodiad A** am ganllawiau gweithredol ar gyfer Darparwyr Hyfforddiant Annibynnol

Gweler **protocol Colegau Cymru am ganllawiau gweithredol ar gyfer sefydliadau AB**

## Cynnal dilyniant dysgu i bob dysgwr

28. Dylai darparwyr dysgu sicrhau bod ganddynt gynlluniau i sicrhau dilyniant a datblygiad pob dysgwr, waeth a ydynt yn dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb, yn parhau i ddysgu o bell, neu'n gwneud cyfuniad o'r ddau.

29. Dylai darparwyr:

- Gysylltu â'u dysgwyr i adolygu eu cynnydd, gofyn pa gymorth maen nhw ei angen, a chynnig cymorth ac arweiniad.
- Ystyried y cymorth a'r wybodaeth ychwanegol a allai fod yn angenrheidiol i ddysgwyr sydd wedi cwblhau eu cymwysterau ac sy'n cael graddau amcangyfrifedig, i'w helpu i barhau'n frwdfrydig ac i baratoi ar gyfer cam nesaf dysgu a/neu gyflogaeth.
- Defnyddio unrhyw gyfleoedd am adolygiadau wyneb yn wyneb, cymorth bugeiliol neu ddarpariaeth dysgu i gael adborth ar sut mae dysgwyr yn teimlo am y dysgu ar-lein a'r cymorth maent yn ei dderbyn, ac i nodi unrhyw welliannau sydd eu hangen.
- Sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o gymorth ar gyfer eu diogelwch, llesiant ac iechyd meddwl, yn cynnwys cymorth drwy'r darparwr ei hun a chan wasanaethau cenedlaethol.
- Ystyried sut y gellir integreiddio unrhyw ddysgu wyneb yn wyneb a ailddechreuir gyda darpariaeth ar-lein.
- Rhoi'r holl "sgaffaldiau" angenrheidiol i ddysgwyr i weithio o bell, boed drwy elfen o ddarpariaeth wyneb yn wyneb neu barhau i ddarparu cymorth gan diwtoriaid, aseswyr neu ddarlithwyr o bell. Gallai hyn gynnwys aseiniadau, ymchwil neu brosiectau annibynnol gyda chyfleoedd i wirio dealltwriaeth, derbyn adborth a rhyngweithio â dysgwyr eraill.
- Cynnig cymaint o hyblygrwydd â phosibl i ddysgwyr a staff sydd angen cyflawni cyfrifoldebau gofalu hefyd, fel dysgu "pytiau byr", cadw gwersi a sesiynau tiwtorial gyda'r hwyr.
- Rhoi cyfleoedd i'r holl ddysgwyr a staff ofyn cwestiynau, rhoi adborth ar sut mae pethau'n mynd, mynegi pryderon a gwneud awgrymiadau.
- Rhoi sicrwydd i ddysgwyr nad ydynt yn gallu ailddechrau dysgu wyneb yn wyneb eto y byddant yn dal i dderbyn cefnogaeth, a sicrhau bod ganddynt gyswllt a enwyd a'u bod yn derbyn negeseuon cyfathrebu rheolaidd.



## Adnoddau dilyniant dysgu

Canllawiau a chyhoeddiadau Covid-19 Llywodraeth Cymru

<https://llyw.cymru/coronafeirws>

Cymorth a chyngor i ddysgwyr sy'n bryderus neu sy'n teimlo'n anniogel

<https://hwb.gov.wales/parthau/diogelwch-ar-lein/teimlo-n-bryderus-angen-gwybodaeth-eisiau-cyngor/>

Adnoddau a chanllawiau Jisc ar ddysgu ar-lein

<https://www.jisc.ac.uk/coronavirus>

Blwyddyn 11: Adnoddau dysgu o bell i gefnogi datblygiad i ddysgu ôl-16

<https://hwb.gov.wales/dysgu-o-bell/dysgu-a-sgiliau-ol-16/blwyddyn-11-pontio-i-addysg-a-sgiliau-ol-16/>

Blwyddyn 13: Adnoddau dysgu o bell i gefnogi datblygiad i brifysgol

<https://hwb.gov.wales/dysgu-o-bell/adnoddau/ol-16/>

Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol Cyngor y Gweithlu Addysg

<https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/priodoldeb-i-ymarfer/cod-ymddygiad-ac-ymarfer-proffesiynol-cga.html>

Canllawiau ymarfer da Cyngor y Gweithlu Addysg, yn cynnwys Defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol yn y Gyfrifol

<https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/priodoldeb-i-ymarfer/canllawiau-ymarfer-da.html>

## Monitro ac adolygu

30. Mae darparwyr dysgu'n gyfrifol am sicrhau bod eu staff a'u dysgwyr yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 ac yn cadw at [ganllawiau ar gadw pellter cymdeithasol](#). Dylid gwneud trefniadau i bobl adrodd am unrhyw bryderon, a phrosesau i anfon gartref unrhyw un sy'n gwrthod dilyn y gweithdrefnau mae'r darparwr wedi'u cyflwyno i sicrhau eu diogelwch.
31. Mae Llywodraeth Cymru'n monitro newidiadau yng nghyfradd heintiadau, derbyniadau ysbyty a marwolaethau Covid-19 yn ofalus, ar lefel genedlaethol a lleol. Efallai y bydd angen gorchymyn i ddarparwr dysgu gau un neu ei holl safleoedd os yw tystiolaeth yn awgrymu na all aros ar agor yn ddiogel.
32. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu diweddarau wrth i gyngor newydd gael ei gyhoeddi, yn cynnwys datblygiad [protocolau Profi, Orlhain, Diogelu](#) newydd. Mae'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys fel hyperddoleni yn y ddogfen hon drwyddi draw yn cael eu diweddarau'n aml hefyd, felly dylai darparwyr sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r wybodaeth ddiweddaraf sy'n berthnasol i'w gwaith.
33. Byddwn yn gofyn am fewnbwn gan ddarparwyr dysgu ar arferion da a "gwersi a ddysgwyd", i lywio datblygiad trefniadau ar gyfer darpariaeth dysgu o hydref 2020 ymlaen. Mae disgwyl i gyflogwyr ac undebau llafur adolygu protocolau y cytunwyd arnynt a diwygio eu harferion a'u gweithdrefnau, yn sgil canllawiau newidiol a thystiolaeth o ymarfer effeithiol mewn dysgu parhaus ond gan fodloni gofynion Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020.

# Atodiad A

## Canllawiau gweithredol ar gyfer darparwyr hyfforddiant annibynnol

### Cyfathrebu

**Wrth baratoi ar gyfer ailagor dysgu wyneb yn wyneb, mae'n rhaid i ddarparwyr:**

- Gynnal asesiadau risg ar gyfer yr amgylchedd dysgu, staff a dysgwyr.
- Ymgynghori â staff am y cynlluniau (e.e. mesurau diogelwch, newidiadau i'r amserlen ac amseroedd cyrraedd a gadael gwasgaredig), a darparu canllawiau a hyfforddiant.
- Cynghori dysgwyr, rhieni, gofalwyr neu unrhyw ymwelwyr, fel cyflenwyr, i beidio â mynd i ganolfannau hyfforddi os ydynt yn dangos unrhyw symptomau o coronafeirws (Covid-19).
- Hysbysu dysgwyr, rhieni a gofalwyr am eu hamseroedd cyrraedd a gadael dyranedig mewn canolfannau hyfforddi a'r broses ar gyfer gwneud hynny, yn cynnwys protocolau ar gyfer lleihau cyswllt rhwng oedolion (e.e. pa fynedfa i'w defnyddio).
- Sicrhau bod dysgwyr a rhieni'n ymwybodol o argymhellion ynghylch trafndiaeth i ac o'u darparwr neu gyflogwr (yn cynnwys osgoi adegau prysur).
- Cyfathrebu'n gynnar â chontractwyr a chyflenwyr a fydd angen paratoi i gefnogi cynlluniau ar gyfer agor e.e. cyflenwyr glanhau, arlwyyo, cyflenwadau bwyd a hylendid.
- Trafod gofynion glanhau ychwanegol â chontractwyr neu staff glanhau a chytuno ar oriau ychwanegol i ganiatáu hyn.

## Paratoi'r amgylchedd dysgu (dysgwyr mewn canolfannau)

### **Cyn ailagor ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb, mae'n rhaid i ddarparwyr dysgu ystyried y canlynol fel isafswm:**

- A oes angen i'r safle dysgu gael ei lanhau'n drylwyr?
- Diwygio eu hasesiad risg a chyngor iechyd a diogelwch arall i ddysgwyr a staff yn sgil cyngor diweddar y llywodraeth, gan nodi mesurau rheoli.
- Adolygu addasrwydd adeiladau ac ystafelloedd unigol i gydymffurfio â gofynion cadw pellter a hylendid, yn cynnwys maint a chynllun ystafelloedd a choridorau; mynedfeydd ac allanfeydd; rhwystrau corfforol; trefniadau bwyta; trefniadau argyfwng a meddyginiaeth; cyfleusterau toiled, golchi dwylo a diheintio; a chynllunio sut y bydd grwpiau o ddysgwyr yn dychwelyd ar sail hynny.
- Cynnal adolygiadau iechyd a diogelwch o safleoedd cyflogwyr lle mae ymarferwyr yn ymweld â gweithleoedd i ddarparu dysgu, yn cynnwys aseswyr prentisiaid.
- Sicrhau bod yr holl wiriadau cydymffurfio o ran iechyd a diogelwch wedi'u cynnal.
- Trefnu amserlenni darpariaeth fel bod meintiau grwpiau'n ddigon bach i gynnal gofynion cadw pellter cymdeithasol.
- Trefnu gweithdai ac ystafelloedd dosbarth i'r grwpiau hynny, cynnal lle rhwng gweithfannau, seddi a desgiau a, lle bo angen, symud neu greu rhwystr at gyfarpar er mwyn sicrhau dwy fetr o bellter.
- Symud eitemau diangen o ystafelloedd dosbarth ac amgylcheddau dysgu eraill.
- Cynllunio amserlenni, yn cynnwys gwasgaru darpariaeth dysgu, amseroedd cyrraedd a gadael, ac amseroedd egwyl i helpu i gynnal gofynion cadw pellter.
- Ystyried sut mae dysgwyr yn teithio i'r darparwr, a lleihau unrhyw deithio diangen ar goetsys, bysiau neu drafndiaeth gyhoeddus lle bo'n bosibl – a lle nad yw hynny'n bosibl, osgoi amseroedd prysur.
- Ymgysylltu â sefydliadau dyfarnu i sicrhau bod ganddynt y capasiti ar yr adeg gywir i fodloni'r galw am asesiadau.

- Rhoi digon o amser i staff addysgu a chymorth i baratoi ar gyfer darparu dysgu, a sicrhau bod yna strategaethau ar waith i gydbwyso anghenion dysgwyr sy'n dal i fod gartref ochr yn ochr â'r rhai sy'n dod i'r coleg, canolfan hyfforddi neu weithle (yn cynnwys ystyried llwyth gwaith staff).
- Ystyried gofynion ac arweiniad ar gyfer dysgwyr a staff sydd â chyfrifoldebau gofalu ac aelodau teulu agored i niwed, fel eu bod yn glir ynghylch disgwyliadau a beth i'w wneud os oes ganddynt bryderon.
- Ystyried trefniadau wrth gefn i'r rhai sy'n methu â manteisio ar y ddarpariaeth ar hyn o bryd.

## Rheoli darpariaeth yn ddiogel: dysgwyr mewn canolfannau

### Glanhau a hylendid

- Dilyn [canllawiau](#) Llywodraeth y DU ar lanhau lleoliadau nad ydynt yn rhai gofal iechyd.
- Sicrhau cyfleusterau golchi dwylo digonol a mynediad at hylif diheintio dwylo.
- Glanhau a diheintio arwynebau y mae staff a dysgwyr yn eu cyffwrdd, fel cyfarpar, desgiau, cadeiriau, handlenni drysau a phadiau gwthio, sinciau a thapiau, toiledau, switsys golau, banisterau, yn amlach nag arfer.
- Pan nad oes sinc yn agos, darparu hylif diheintio dwylo mewn ystafelloedd dosbarth ac amgylcheddau dysgu eraill. Nid yw hylif diheintio dwylo cystal â golchi dwylo'n drylwyr yn aml a dylid gwneud pob ymdrech i olchi dwylo.
- Sicrhau bod yr holl staff a dysgwyr:
  - yn golchi eu dwylo yn aml gyda dŵr a sebon am 20 eiliad ac yn eu sychu'n drylwyr (pan maent yn newid ystafelloedd, yn mynd i'r toiled neu'n symud rhwng ystafelloedd hyfforddi/gweithdai ac ardaloedd cymunedol);
  - yn glanhau eu dwylo wrth gyrraedd y lleoliad, cyn ac ar ôl bwyta, ar ôl ymarfer ac egwyl, ac ar ôl tisian neu besychu;
  - yn cael eu hannog i beidio â chyffwrdd eu ceg, llygaid a'u trwyn; ac
  - yn defnyddio hances neu benelin i besychu neu disian ac yn taflu'r hancesi i finiau.
- Sicrhau bod cymorth ar gael i ddysgwyr sy'n cael trafferth glanhau eu dwylo ar eu pen eu hunain.
- Sicrhau bod biniau ar gyfer hancesi'n cael eu gwacáu drwy gydol y dydd.
- Sicrhau awyru digonol.

### **Rheoli'r amgylchedd ffisegol (dysgwyr ar y campws ac mewn canolfannau)**

- Mynd yn syth i ystafelloedd o'r tu allan lle bo'n bosibl.
- Lle mae'n rhaid cerdded drwy goridor i gyrraedd rhywle, ystyried system un ffordd, neu osod rhannwr yng nghanol y coridor i gadw grwpiau ar wahân wrth iddynt symud drwy'r lleoliad.
- Gweithredu rheolau cadw pellter o ddwy fetr bob amser, mewn coridorau, ystafelloedd dosbarth a gweithfannau.
- Bydd cael egwyl ar adegau gwahanol hefyd yn sicrhau mai nifer cyfyngedig o ddysgwyr fydd yn defnyddio'r coridorau neu lwybrau cylchredeg ar adeg benodol.
- Amser cinio ar adegau gwahanol – dylai dysgwyr olchi eu dwylo o flaen llaw a mynd yn y grwpiau maent ynddynt eisoes; dylid cadw grwpiau ar wahân cymaint â phosibl; a dylid glanhau byrddau rhwng pob grŵp.
- Sicrhau nad oes gormod o bobl yn y toiledau drwy gyfyngu ar y niferoedd sy'n cael defnyddio'r toiledau yr un pryd.
- Nodwch y bydd rhai dysgwyr angen cymorth ychwanegol i ddilyn y mesurau hyn (er enghraifft, marcio llwybrau o gwmpas y ganolfan ddysgu mewn Braille neu gyda symbolau ystyrlon eraill, neu straeon cymdeithasol i'w cynorthwyo i ddeall sut i ddilyn rheolau).
- Lle bo'n bosibl, sicrhau bod dysgwyr yn defnyddio'r un ystafell neu ardal drwy'r dydd, gan lanhau'r ystafelloedd a chyfarpar yn drylwyr ar ddiwedd y dydd. Pan fo dysgwyr yn defnyddio'r un ystafell ar ddyddiau'n olynol, dylai darparwyr sicrhau eu bod yn defnyddio'r un weithfan neu ddesg.
- Ceisio atal dysgwyr rhag rhannu deunydd ysgrifennu a chyfarpar arall lle bo'n bosibl. Dylid glanhau a diheintio deunyddiau ac arwynebau a rennir yn amlach.

### **Defnyddio manau awyr agored a manau a rennir**

- Dylid parhau i ddefnyddio manau awyr agored ar gyfer ymarfer ac egwyl.
- Mae dysgu yn yr awyr agored yn cael ei annog lle bo'n bosibl gan fod hyn yn gallu cyfyngu ar drosglwyddiad ac yn galluogi unigolion i gadw pellter yn haws. Dylid parhau i ddilyn y gofynion cadw pellter cymdeithasol o ddwy fetr yn yr awyr agored.
- Ni ddylid defnyddio cyfarpar awyr agored oni bai fod y lleoliad yn gallu sicrhau ei fod yn cael ei lanhau'n briodol rhwng grwpiau o ddysgwyr sy'n ei ddefnyddio, ac nad yw sawl grŵp yn ei ddefnyddio yr un pryd.

- Dylid gwasgaru'r defnydd o ystafelloedd staff a swyddfeydd hefyd i gyfyngu ar faint sydd yno, cynnal gofynion cadw pellter a chyfyngu ar rannu cyfarpar neu offer.

## Rheoli darpariaeth yn ddiogel: prentisiaethau a dysgu yn y gweithle

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi [canllawiau ar weithio'n ddiogel yn ystod y coronafeirws](#), i helpu cyflogwyr a gweithwyr ddeall sut i weithio'n ddiogel yn ystod pandemig Covid-19. Mae yna wyth canllaw ar hyn o bryd sy'n cwmpasu'r diwydiannau canlynol:

- Adeiladu a gwaith awyr agored arall
- Ffatrioedd, gweithfeydd a warysau
- Labordai a chyfleusterau ymchwil
- Swyddfeydd a chanolfannau cyswllt
- Cartrefi pobl eraill
- Bwytai sy'n cynnig tecawê neu wasanaeth cludo
- Siopau a changhennau
- Cerbydau

Dylai aseswyr gweithle sy'n ymweld â chyflogwyr ymgyfarwyddo ag unrhyw ganllawiau ar gyfer eu sectorau, i sicrhau eu bod yn deall beth ddylai cyflogwyr fod yn ei wneud i gadw eu staff yn ddiogel. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu diweddarau dros amser ac rydym yn rhagweld y bydd rhagor o sectorau'n cael eu hychwanegu wrth i fwy o ddiwydiannau ddechrau ailagor ar gyfer busnes. Pan fydd dysgwr sydd ar hyfforddeiaeth wedi bod ar leoliad gwaith yn ystod cyfyngiadau Covid-19, gall hyn barhau, yn amodol ar wiriadau iechyd a diogelwch cyfredol gan y darparwr. Dylai darparwr sicrhau bod y dysgwr yn deall arferion gweithio diogel yn gysylltiedig â chadw pellter cymdeithasol a hylendid, ac yn gwybod sut i hysbysu'r darparwr os oes ganddo unrhyw bryderon am ddiogelwch yn y gweithle.

Ar hyn o bryd, ni ddylai dysgwyr ar hyfforddeiaeth ddechrau lleoliadau gwaith newydd, ac ni ddylent ddychwelyd i leoliadau gwaith a ddechreuwyd cyn y cyfyngiadau symud ond y tarfwyd arnynt wrth i gyflogwyr gau. Bydd y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu a chanllawiau pellach yn cael eu darparu'n ddiweddarach, ar sail cyngor gwyddonol a chanllawiau gweithle sector-benodol. Os yw dysgwyr yn mynegi pryderon am ei ddiogelwch yn y gweithle, neu os yw aseswr yn sylwi ar arferion anniogel (fel hylendid gwael, neu fethiant i gadw pellter cymdeithasol mewn manau cyfyngedig), dylai'r darparwr fynegi'r pryderon hyn wrth y cyflogwr.



Ni ddylid gofyn i aseswyr a staff arall sy'n gysylltiedig â darpariaeth y gweithle ymweld â gweithleoedd os nad yw'r darparwr yn sicr eu bod yn ddiogel.

Gall dysgwyr neu aseswyr roi gwybod am faterion sy'n ymwneud â diogelu pobl rhag Covid-19 yn y gweithle i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar 0300 790 6787 (llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener 8:30am i 8pm) ar-lein gan ddefnyddio eu [ffurflen ymholiadau gweithio'n ddiogel](#)

## Trefniadau trafndiaeth

**Lle mae darparwyr yn darparu neu'n hwyluso trafndiaeth i ddysgwyr i ganolfannau hyfforddi dylent ystyried sut i:**

- Sicrhau bod trefniadau trafndiaeth yn darparu ar gyfer unrhyw amseroedd cychwyn a gorffen gwasgaredig y cytunwyd arnynt.
- Sicrhau bod dysgwyr yn cerdded neu'n beicio i'w lleoliad addysg lle bo'n bosibl.
- Ni ddylai darparwyr trafndiaeth weithio os ydyn nhw, neu aelod o'u cartref, yn dangos unrhyw [symptomau](#) o coronafeirws (Covid-19).
- Dylai darparwyr trafndiaeth ddilyn rheolau hylendid a cheisio cadw pellter oddi wrth eu teithwyr cymaint â phosibl.
- Pan na fo hyn yn bosibl, er enghraifft wrth gludo dysgwyr ag anghenion cymhleth sydd angen cymorth i ddod mewn i'r cerbyd/cau gwregys diogelwch ac ati, dylid cymryd camau priodol i leihau risg.
- Dylai darparwyr ystyried y canlynol:
  - cael cerbydau mawr yn lle rhai bach, neu redeg dau gerbyd yn lle un, lle bo'n bosibl, i leihau nifer y teithwyr ar bob cerbyd a/neu gynyddu'r lle rhwng teithwyr;
  - defnyddio seddi dyranedig fel bod dysgwyr yn eistedd yn yr un lle, er mwyn cefnogi olrhain cysylltiadau; a
  - cau seddi i ffwrdd, a dileu eistedd wyneb yn wyneb, lle mae cerbyd yn caniatáu hynny, fel bo teithwyr yn gallu bod yn wasgaredig.
- Cyfathrebu cynlluniau teithio diwygiedig yn glir i gontractwyr, dysgwyr a rhieni neu ofalwyr lle bo'n briodol (e.e. i gytuno ar amseroedd casglu a gollwng).

